

Bwletin ystadegol

# Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, data heb eu talgrynnu

Amcangyfrifon poblogaeth a chartrefi heb eu talgrynnu Cyfrifiad 2021 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ôl rhyw a grp pum mlynedd



Cyswllt:  
Michael Roskams  
census.customerservices@ons.  
gov.uk  
+44 1329 44 4972

Dyddiad y datganiad:  
2 November 2022

Cyhoeddiad nesaf:  
I'w gyhoeddi

## Table of contents

1. [Prif bwyntiau](#)
2. [Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr: data](#)
3. [Mesur y data](#)
4. [Dolenni cysylltiedig](#)
5. [Cyfeirio at y bwletin ystadegol hwn](#)

# 1 . Prif bwyntiau

Rhyddhawyd [amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 o'r boblogaeth a chartrefi wedi'u talgrynnu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr](#) ar 28 Mehefin 2022. Roedd y bwletin yn archwilio newid dros amser, amrywiadau rhanbarthol a chyfansoddiad y boblogaeth yn ôl rhyw a grp oedran pum mlynedd.

Mae'r diweddariad hwn yn rhoi amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi heb eu talgrynnu, yn ôl rhyw ac un flwyddyn o oedran. Mae'r data ategol wedi'u cyflwyno ar gyfer ardaloedd daearyddol manylach fyth, i lawr i [Ardaloedd Cynnyrch](#) (yn Saesneg) lle y bo modd.

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru a Lloegr oedd 59,597,542 (3,107,494 yng Nghymru a 56,490,048 yn Lloegr); dyma'r boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed drwy gyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.
- Cynyddodd poblogaeth Cymru a Lloegr fwy na 3.5 miliwn (6.3%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 56,075,912.
- Cynyddodd y boblogaeth ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, a chynyddodd yng Nghymru hefyd; y rhanbarth lle cynyddodd y boblogaeth fwyaf oedd Dwyrain Lloegr, i fyny 8.3% o 2011 (cynnydd o oddeutu 488,000 o breswylwyr).
- Roedd 30,420,202 o fenywod (51.0% o'r boblogaeth) a 29,177,340 o ddynion (49.0%) yng Nghymru a Lloegr.
- Roedd 24,783,199 o gartrefi yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; cynyddodd nifer y cartrefi fwy nag 1.4 miliwn ers 2011 (6.1%), pan oedd 23,366,044 o gartrefi. Yr oedran canolrifol yng Nghymru a Lloegr oedd 40 oed (42 oed yng Nghymru, 40 oed yn Lloegr); mae hyn yn uwch na'r oedran canolrifol ledled Cymru a Lloegr yn 2011, sef 39 oed.
- Y rhanbarth o Loegr â'r oedran canolrifol uchaf oedd De-orllewin Lloegr (44 oed) a'r rhanbarth o Loegr â'r oedran canolrifol isaf oedd Llundain (35 oed).
- Ledled Cymru a Lloegr, yr awdurdodau lleol â'r oedran canolrifol uchaf oedd Gogledd Norfolk (54 oed), Rother (53 oed) a Dwyrain Lindsey (52 oed).
- Yr awdurdod lleol â'r oedran canolrifol isaf oedd Tower Hamlets (30 oed), yna Nottingham, Caergrawnt, Rhydychen a Manceinion (pob un yn 31 oed).

Dewiswch ardal i weld sut mae oedran canolrifol yn amrywio ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr.

## Ffigur 1: Roedd awdurdodau lleol â mwy o fyfyrwyr prifysgol yn tueddu i gael oedran canolrifol is

### Strwythur oedran y boblogaeth, 2021, awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr

#### Nodiadau

1. Yr oedran canolrifol yw oedran y person yng nghanol y grp, fel bod un hanner o'r grp yn iau na'r person hwnnw a'r hanner arall yn hn.
2. Mae oedran yn cyfeirio at oedran person ar ei ben-blwydd diwethaf yn hytrach na'r union oedran.
3. Caiff canrannau eu talgrynnu i un lle degol.

#### Lawrlwytho'r data

[.xlsx](#)

## 2 . Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr: data

### [Rhyw](#) (yn Saesneg)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl rhyw. Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

### [Oedran yn ôl un flwyddyn](#) (yn Saesneg)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl un flwyddyn o oed. Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

### [Rhyw yn ôl un flwyddyn o oed](#) (yn Saesneg)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl rhyw ac un flwyddyn o oedran. Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

### [Nifer y cartrefi](#) (yn Saesneg)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 ar nifer y cartrefi yng Nghymru a Lloegr. Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

### [Dwysedd poblogaeth](#) (yn Saesneg)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl dwysedd poblogaeth. Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

## 3 . Mesur y data

### Dyddiad cyfeirio

Mae'r cyfrifiad yn rhoi amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a chartref yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Caiff ei gynnal unwaith bob 10 mlynedd ac mae'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr i ni.

Rydym yn gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ond byddwn hefyd yn rhyddhau allbynnau ar gyfer y Deyrnas Unedig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Cafodd y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon ei gynnal ar 21 Mawrth 2021 hefyd, ond cafodd cyfrifiad yr Alban ei symud i 20 Mawrth 2022. Mae holl swyddfeydd y cyfrifiad yn y Deyrnas Unedig yn gweithio'n agos i ddeall sut y bydd y gwahaniaeth hwn mewn dyddiadau cyfeirio yn effeithio ar ystadegau poblogaeth a thai'r Deyrnas Unedig gyfan, o ran yr amseru a'r cwrpas.

### Cyfradd ymateb

Cyfradd ymateb unigolion yw nifer y preswylwyr arferol y cafodd manylion unigol eu darparu ar eu cyfer ar holiadur a ddychwelwyd, wedi'i rannu ag amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl arferol.

Y gyfradd ymateb unigolion ar gyfer Cyfrifiad 2021 oedd 97% o boblogaeth breswyl arferol Cymru a Lloegr, a dros 88% ym mhob awdurdod lleol. Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni (89%) eu derbyn ar lein. Gwnaeth y gyfradd ymateb ragori ar ein targed, sef 94% yn gyffredinol ac 80% ym mhob awdurdod lleol.

## Ansawdd

Oherwydd effaith y broses o ddileu talgrynnu a rhoi prosesau ystadegol eraill ar waith, gall fod gwahaniaethau bach iawn ar gyfer rhai awdurdodau lleol rhwng yr amcangyfrifon wedi'u talgrynnu a heb eu talgrynnu o'r boblogaeth a chartrefi.

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gryfderau, cyfyngiadau, defnyddiau priodol a'r modd y cafodd y data eu creu ar gael yn yr adroddiad [Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ar gyfer Cyfrifiad 2021](#). Ceir rhagor o wybodaeth am ein prosesau sicrhau ansawdd yn ein hadroddiad am [Sicrhau bod amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 o'r ansawdd gorau posibl](#) (yn Saesneg).

## 4 . Dolenni cysylltiedig

[Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021](#)

Bwletin | Rhyddhawyd ar 28 Mehefin 2022

Amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 o'r boblogaeth wedi'u talgrynnu ar gyfer ardaloedd yng Nghymru a Lloegr, yn ôl rhyw a grp oedran pum mlynedd.

[Lleisiau ein poblogaeth sy'n heneiddio: Byw bywydau hirach](#) (yn Saesneg)

Erthygl rhyngweithiol | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Pam mae heneiddio poblogaeth yn bwysig a beth mae data Cyfrifiad 2021 yn ei ddweud wrthym? Lluniwyd yr erthygl hon mewn partneriaeth ag Age UK, y Centre for Ageing Better a'r International Longevity Centre UK.

[Map y cyfrifiad](#) (yn Saesneg)

Cynnwys rhyngweithiol | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Adnodd map rhyngweithiol sy'n delweddu data Cyfrifiad 2021 ar bynciau gwahanol i lawr i ardal awdurdod lleol a lefel cymdogaeth.

[Geiriadur Cyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg)

Methodoleg | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Diffiniadau o newidynnau, dosbarthiadau allbwn, rhestr termau a metadata daearyddiaeth.

[Cymharu amcangyfrifon oedran-rhyw o Gyfrifiad 2021 ag ardaloedd yng Nghymru a Lloegr](#) (yn Saesneg)

Methodoleg | Rhyddhawyd ar 28 Mehefin 2022, diweddarwyd â data heb eu talgrynnu ar 2 Tachwedd 2022

Adnodd rhyngweithiol i gymharu awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gan ddefnyddio amcangyfrifon oedran-rhyw a gwybodaeth sicrhau ansawdd.

[Demograffeg a mudo yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#)

Prif ddatganiad | Rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022

Crynodeb gan Lywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021 ar ddemograffeg a mudo yng Nghymru.

## 5 . Cyfeirio at y bwletin ystadegol hwn

Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), rhyddhawyd ar 2 Tachwedd 2022, gwefan SYG, bwletin ystadegol, [Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, data heb eu talgrynnu](#).